Deddf Cydraddoldeb 2010
Taflen Ffeithiau

Ffeithiau allweddol ar gyfer busnesau
Deddf Cydraddoldeb 2010

Cyflwyniad
Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli nifer o gyfreithiau gwahanol. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn deall y Ddeddf er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Nod y Ddeddf yw atal triniaeth annheg yn y gweithle a chefnogi cyfle cyfartal llawn yn y gweithle ac yn y gymdeithas.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhan o gyfres o Daflenni ffeithiau Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ceisio egluro pwysigrwydd y Ddeddf ac yn nodi rhai o'r newidiadau allweddol ar gyfer cyflogwyr.

Pam y mae'r Ddeddf yn bwysig?
Mae cydymffurfio â'r Ddeddf yn ofyniad statudol i fusnesau, ond mae hefyd yn gyfle iddynt ystyried sut y gall busnesau elwa'n fasnachol yn sgil amrywiaeth a chydraddoldeb.

Ffeithiau Allweddol am y Ddeddf Cydraddoldeb
- Mae'r Ddeddf wedi disodli'r amrywiol ddeddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un deddf sengl
- Y nod yw symleiddio'r gyfraith a'i gwneud yn haws cydymffurfio â hi
- Mae'r Ddeddf yn cynnwys 9 nodwedd a ddiogelir:
  - > Oedran
  - > Anabledd
  - > Ailbennu rhywedd
  - > Priodas a phartneriaeth sifil
  - > Beichiogrwydd a mamolaeth
  - > Hil
  - > Crefydd neu gredo
  - > Rhyw
  - > Cyfeiriadedd rhywiol
- Ni ellir defnyddio'r nodweddion hyn i drin pobl yn annheg
- Mae gan bawb o leiaf 1 nodwedd neu fwy a ddiogelir
- Mae'r Ddeddf yn cwmpasu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddu, erlid a gwrthod cyflawni addasiadau rhesymol
- Mae'n diogelu staff yn erbyn aflonyddu gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau
- Mae'n diogelu pawb sy'n gofalu am rywun sydd â nodwedd a ddiogelir.

Sicrhau bod eich busnes yn cydymffurfio â'r Ddeddf
Gallwch wneud sawl peth i sicrhau bod eich busnes yn cydymffurfio â'r Ddeddf:
- Llwyr ddeall goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 o safbwynt staff, cwsmeriaid, cyflenwyr ac arferion recriwtio
- Adolygu neu ddatblygu strategaeth amrywiaeth a chydraddoldeb sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf. Bydd hyn yn dangos yn glir eich ymrwymiad i weithle teg a chyfartal. Bydd yn helpu eich gweithwyr cyflogedig i ddeall beth yw ymddygiad derbyniol a beth sy'n annerbyniol. Wrth gynnwys y strategaeth ar eich gwefan, bydd eich cwsmeriaid a'ch darpar weithwyr cyflogedig yn eich ystyried yn sefydliad da i wneud busnes ag ef
- Sicrhau bod eich holl staff yn deall y Ddeddf a sut mae'n berthnasol iddynt.

Y manteision i fusnesau
Y ffordd resymegol o weithredu'r ddeddf yw trwy ddatblygu strategaeth gydraddoldeb ac amrywiaeth. Gall strategaeth o'r fath sydd wedi'i datblygu'n briodol gynnig rhai o'r manteision canlynol:
- Cynyddu cynhyrchiant
- Gwella cymhelliant a theyrngarwch staff
- Creu cronfa ehangach o dalent wrth gyflogi staff
- Gwella enw da'r busnes
- Dod yn gyflogwr delfrydol.

Camau Nesaf
- Ffoniwch Chwarae Teg ar **01443 824410** i weld os yw'ch busnes yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol llawn ein Rhaglen Esblygu i Fusnesau
- Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Ewch i **www.cymraeg.agilenation.co.uk** am ddolenni i adnoddau ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae prosiect Chwarae Teg yn darparu cymorth a datblygiad yn y gweithle i fenywod a busnesau yn ardal gydgyfeirio Cymru. I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.agilenation.co.uk**

Chwarae Teg®
Agile Nation

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund